# Bydd Cangen Pontypridd yn cau ar  29 Chwefror 2024

**Dyma beth mae'n ei olygu i chi.**



NatWest

Tomorrow Begins Today

# Mae'r ffordd rydym yn bancio yn newid

Gyda rhwyddineb bancio symudol ac ar-lein mae llai o bobl yn dod i mewn i'r banc. Mae hyn yn golygu ein bod wedi gorfod gwneud rhai dewisiadau anodd ynghylch pa rai all aros ar agor. Felly, rydym am wneud yn siŵr ein bod yn cadw'r canghennau y mae pobl yn eu defnyddio fwyaf.

Ar draws y banc rydym wedi gweld.




Gostyngodd trafodion cownter cyfartalog o **60%** rhwng Ionawr 2019 ac Ionawr 2023




Cynyddodd nifer y cwsmeriaid a ddefnyddiodd apiau symudol o **49%** rhwng Ionawr 2019 ac Ionawr 2023

Mae'r mesuriadau yn y ddau graff yn filiynau

Cafodd mwy na **701** miliwn o drafodion ffonau symudol ac ar-lein eu prosesu yn 2022

# Ein cyfrifoldeb i chi

Rydym yn deall yn llwyr nad yw bancio ar-lein yn iawn i bawb. Weithiau rydych chi am sgwrsio gyda rhywun. Rydym yn addo y byddwch yn dal i allu siarad ag un o'n tîm naill ai ar y ffôn, trwy fideo neu yn un o'n canghennau eraill.

Rydym wedi llunio'r daflen hon i'ch arwain drwy'r newidiadau, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau o gwbl gofynnwch i un o'n tîm.

Byddan nhw wrth law i'ch helpu chi i ddod o hyd i'r ffyrdd y gallwch chi fancio sy'n gweddu orau i'ch anghenion. Rydym hefyd yma i unrhyw un a hoffai help i ddechrau gyda bancio ar-lein neu ein ap. Yn ogystal â fideos Sut I byr, hawdd eu dilyn, rydym yn cynnal dosbarthiadau ar-lein dros Zoom. Fe welwch bopeth sydd angen i chi ei wybod ar ein gwefan **natwest.com/onlinebanking** (Ac mae rhai awgrymiadau defnyddiol ynghylch ymwybyddiaeth twyll a sgamiau hefyd.)

Mae gennym hefyd Arbenigwyr Cymorth Cwsmeriaid sy'n ymroddedig i helpu cwsmeriaid sydd angen mwy o gefnogaeth.

# Sut rydym yn penderfynu cau cangen

Mae cau cangen bob amser yn anodd ac nid yw'n benderfyniad y byddwn ni byth yn ei wneud yn ysgafn. Rydym yn edrych ar:

- yr effaith debygol ar gwsmeriaid. Pa mor aml mae cwsmeriaid yn defnyddio'r gangen – a'r trafodion y maent yn eu gwneud.
- eu dewisiadau bancio.
- ble mae'r gangen agosaf a'r peiriannau arian agosaf.
- a oes Swyddfa Bost® leol ar gyfer bancio bob dydd?
- yr holl opsiynau bancio eraill: Bancio Ar-lein, Symudol, Ffôn a Fideo.

# Ym Mhontypridd fe welsom:




O gymharu Ionawr 2019 ac Ionawr 2023, mae trafodion cownter ar gyfer cwsmeriaid personol wedi gostwng o **66%**



Yn 2022 dewisodd **75%** o gwsmeriaid personol a oedd yn defnyddio'r gangen ddefnyddio Bancio Ar-lein neu ein ap symudol hefyd

- defnyddiwyd y gangen gan **5** cwsmer personol yn rheolaidd yn 2022
- defnyddiwyd y gangen gan **89** cwsmer busnes yn rheolaidd yn 2022

# Mae eich barn yn bwysig

Dyna pam rydym yn cysylltu â'n cwsmeriaid ac yn ymgysylltu â'r gymuned leol i drafod ein penderfyniad. Byddwn yn diweddaru'r daflen ffeithiau hon gyda manylion y rhai y gwnaethom gysylltu â nhw, crynodeb o'r ymatebion – ac unrhyw gwynion. Byddwch yn gallu darllen y canlyniadau yn **natwest.com/branchclosures** erbyn 15 Chwefror 2024.

Yn y cyfamser, os hoffech ofyn unrhyw beth i ni neu os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, cysylltwch â'n Harbenigwyr Cymorth Cwsmeriaid ymroddedig ar **0131 380 6528** (Relay UK **18001 0131 380 6528**, Rhyngwladol **+ 44 131 380 6528**).

# Canghennau agosaf i Bontypridd

Galwch i mewn i unrhyw gangen NatWest. Mae gan bob un fynediad gwastad neu ramp oni bai y nodir ar ein lleolwr cangen, a gallwch weld rhestr lawn o'r holl ganghennau, gwasanaethau ac unrhyw newidiadau i oriau agor yn **natwest.com/branchlocator**. Gall yr oriau agor safonol a restrir newid.

## NatWest Caerffili

**19 Cardiff Road**
**Caerffili**
**Morgannwg Ganol**
**CF83 1WF**
**7.53 milltir**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 09.30-16.30 |
| Dydd Mawrth | 09.30-16.30 |
| Dydd Mercher | 10.00-16.30 |
| Dydd Iau | 09.30-16.30 |
| Dydd Gwener | 09.30-16.30 |
| Dydd Sadwrn | Ar Gau |
| Dydd Sul | Ar Gau |

**Cyfleusterau'r gangen:**

- ✓ Mynediad Cadeiriau Olwyn
- ✓ Peiriant Adneuo Arian Parod a Sieciau
- ✓ Dolen Sain
- ✓ Peiriant Darnau Arian Swmp Mewn
- ✗ Ar Agor Dydd Sadwrn
- ✓ Peiriant Adneuo Awtomataidd
- ✓ Gwasanaeth ATM Allanol
- ✓ Gwasanaeth ATM Mewnol

# Y peiriannau codi arian agosaf sy'n rhad ac am ddim i'w defnyddio

**Tesco Express, 103-104 Taff Street**

**Halifax, 2-3 Mill Street**

**Lloyds, Sgwâr y Farchnad**

Efallai y bydd peiriant codi arian agosach sy'n codi ffi. I weld y rhestr lawn ewch i **link.co.uk**

# Gwasanaethau PayPoint gerllaw

Mae PayPoint yn cynnig gwasanaethau talu yn y siop i gwsmeriaid - gan gynnwys taliadau biliau a swyddogaethau arian parod. I ddod o hyd i'ch cangen agosaf ewch i **consumer.paypoint.com**

**Nisa Express, 5-7 Mill Street**
Llun-Sul 08.00-19.00

**Siop Gyfleustra Ponty, 34 Taff Street**
Llun - Sad 05.30-21.00, Sul 08.00-20.00

**Petrol ASDA, Rhondda Road**
Llun-Sul Ar Agor 24 Awr

# Cwsmeriaid busnes

Er y gallwch ddefnyddio unrhyw un o'n canghennau NatWest, gallwch reoli eich cyfrifon a'ch taliadau 24/7 gyda Bankline neu Fancio Ar-lein. Ochr yn ochr â'n cynigion digidol, mae gennym amrywiaeth o atebion arian parod i ddiwallu'ch anghenion.

I gael gwybod rhagor siaradwch â'ch pwynt cyswllt banc arferol neu ymwelwch â **business/natwest.com/ways-to-bank.html**. Mae ffioedd yn berthnasol i rai gwasanaethau busnes.

## NatWest Llanisien Caerdydd

**50 Station Road**
**Llanisien**
**Caerdydd**
**CF14 5QP**
**10.70 milltir**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 09.30-15.30 |
| Dydd Mawrth | 09.30-15.30 |
| Dydd Mercher | 10.00-15.30 |
| Dydd Iau | 09.30-15.30 |
| Dydd Gwener | 09.30-15.30 |
| Dydd Sadwrn | Wedi cau |
| Dydd Sul | Wedi cau |

**Cyfleusterau'r gangen:**

- ✓ Mynediad Cadeiriau Olwyn
- ✓ Peiriant Adneuo Arian Parod a Sieciau
- ✓ Dolen Sain
- ✗ Peiriant Darnau Arian Swmp Mewn
- ✗ Ar Agor Dydd Sadwrn
- ✗ Peiriant Adneuo Awtomataidd
- ✓ Gwasanaeth ATM Allanol
- ✓ Gwasanaeth ATM Mewnol

## NatWest Treganna, Caerdydd

**277 Cowbridge Road East**
**Caerdydd**
**CF5 1WX**
**11.87 milltir**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 09.30-15.30 |
| Dydd Mawrth | 09.30-15.30 |
| Dydd Mercher | 10.00-15.30 |
| Dydd Iau | 09.30-15.30 |
| Dydd Gwener | 09.30-15.30 |
| Dydd Sadwrn | Ar Gau |
| Dydd Sul | Ar Gau |

**Cyfleusterau'r gangen:**

- ✓ Mynediad Cadeiriau Olwyn
- ✓ Peiriant Adneuo Arian Parod a Sieciau
- ✓ Dolen Sain
- ✓ Peiriant Darnau Arian Swmp Mewn
- ✗ Ar Agor Dydd Sadwrn
- ✓ Peiriant Adneuo Awtomataidd
- ✓ Gwasanaeth ATM Allanol
- ✓ Gwasanaeth ATM Mewnol

# Bancio yn Swyddfa'r Post®

Oeddech chi'n gwybod y gallwch ddefnyddio'ch cerdyn debyd i wirio'ch balans, codi arian a thalu arian parod i mewn yn Swyddfa'r Post? Gallwch adneuo sieciau ac arian parod gyda slip credyd â chod bar a gallwch godi arian hyd at derfyn dyddiol eich cerdyn (neu uchafswm o £500). Gallwch hefyd adneuo arian parod ond nodwch fod cyfyngiadau yn berthnasol. Gall cwsmeriaid busnes wneud hyn i gyd a gallant gofrestru i ddefnyddio ein gwasanaeth rhoi newid. Mae hyn yn gadael i chi gyfnewid papurau am ddarnau arian, neu bapurau uwch am bapurau £5. Bydd eich pwynt cyswllt yn y banc yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

I ddod o hyd i'ch cangen agosaf ewch i **postoffice.co.uk/branch-finder**

**Pontypridd**
0.03 milltir
Llun-Sad 09.00-19.00

**Y Sgwâr Ganolog**
0.81 milltir
Llun-Sul 08.00-21.00

**Park Street**
1.09 milltir
Llun-Sad 08.00-19.00, Sul 09.00-16.00

Gallwch ddysgu rhagor am sut i wneud Bancio o ddydd i ddydd yn Swyddfa'r Post trwy sganio'r cod QR hwn

# Ffyrdd eraill o wneud eich bancio bob dydd

## Ap Bancio Symudol NatWest

Gyda'n ap symudol defnyddiol, gallwch chi wneud llawer o bethau bancio heb orfod mynd i mewn i gangen.

- gwirio balansau a throsglwyddo arian rhwng cyfrifon
- codi arian gan ddefnyddio Get Cash
- talu biliau, eich cysylltiadau a rhywun newydd hyd at £250… a llawer mwy.

A gallwch chi wneud hyn i gyd 24 awr y dydd lle bynnag y byddwch chi.

Dysgwch ragor yn **natwest.com/everydaybanking**

Ap ar gael i gwsmeriaid 11+ oed gyda dyfeisiau iOS ac Android cydnaws a rhif ffôn symudol y DU neu ryngwladol mewn gwledydd penodol. Get Cash: Tynnu hyd at £130 bob 24 awr mewn unrhyw beiriant arian parod NatWest neu Royal Bank of Scotland, cyn belled â'i fod o fewn eich terfyn codi arian dyddiol. Rhaid bod gennych o leiaf £10 ar gael yn eich cyfrif. I dalu biliau, rhywun newydd neu'ch cysylltiadau, mae terfynau'n berthnasol ac mae angen i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn.

## Bancio Fideo NatWest

Siaradwch â ni wyneb yn wyneb o gysur eich cartref. Bydd angen cysylltiad rhyngrwyd a dyfais gyda chamera neu we-gamera arnoch chi. Mae'r arbenigwyr wrth law a gallwn roi Gwiriad Iechyd Ariannol am ddim i chi – ac erbyn hyn mae gennym wasanaeth morgais arbenigol hefyd.

Dysgwch ragor yn **natwest.com/videobanking**

Gall Bancio Fideo gael ei recordio. Mae Bancio Fideo ar gael ar alw 24/7 a thrwy apwyntiadau 8am – 8pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a 9am – 5pm ar ddydd Sul. Dylai cwsmeriaid Premier siarad â'ch Rheolwr Bancio Premier i drefnu apwyntiad.

## Bancio Personol a Busnes Ar-lein NatWest

Holl nodweddion Bancio Symudol gyda'r gallu i wneud mwy, megis:

- gweld hyd at saith mlynedd o ddatganiadau
- sefydlu rhybuddion e-bost neu neges destun.

Cofrestru ar gyfer Bancio Personol neu Fusnes Ar-lein yn natwest.com.

### Bancio Ffôn Personol a Busnes NatWest

Ar gyfer ymholiadau bancio ffôn personol, ffoniwch **03457 888 444** (Relay UK **18001 03457 888 444**).

Cwsmeriaid Premier ffoniwch **0333 202 3330** (Relay UK **18001 0333 202 3330**).

Ymholiadau bancio ffôn busnes ffoniwch **03457 11 44 77** (Relay UK **18001 03457 11 44 77**).
Gall cwsmeriaid busnes hefyd siarad â'u pwynt cyswllt banc.

# Cefnogi ein cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus

Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth ychwanegol i'n cwsmeriaid mwyaf agored i niwed:

- bydd ein Harbenigwyr Cymorth i Gwsmeriaid yn gwneud galwadau ffôn rhagweithiol i gwsmeriaid dros yr wythnosau nesaf, gan ddarparu cymorth a chyngor pwrpasol ag atebion personol i sicrhau y gallwch barhau i fancio mewn ffordd sy'n addas i chi
- cynnal digwyddiad wyneb yn wyneb yn y gangen ar gyfer y rhai y gallai fod yn well ganddynt siarad â rhywun cyfarwydd
- cefnogaeth barhaus i ddefnyddio ein gwasanaethau digidol
- cymorth i ddod o hyd i'r Swyddfa Bost agosaf a chyngor ar ba wasanaethau y gellir eu cyrchu
- bydd ein Cyfarwyddwyr Lleol yn cysylltu â sefydliadau lleolperthnasol i roi gwybod iddynt am y cau, gan gydweithio i gefnogi cwsmeriaid a'r gymuned leol ar ôl cau.

# Sut y byddwn yn eich cefnogi yn y cyfnod cyn cau'r gangen

Byddwn yn cynnal digwyddiad Cefnogi Chi yn ystod y Cyfnod sy'n Arwain at Gau Ein Cangen fydd yn cwmpasu:

- Addysg ar ddod o hyd i'r gwasanaethau bancio lleol cywir fydd yn eich cynorthwyo i fancio gyda ni ar ôl i'ch cangen gau
- Cyfle i siarad gyda'n harbenigwyr i adeiladu'ch ymwybyddiaeth o dwyll a'r sgamiau diweddaraf
- Help a chefnogaeth ynglŷn â'r holl ffyrdd gallwch barhau i fancio gyda ni

# Sut y byddwn yn cefnogi unwaith y bydd y gangen wedi cau

Byddwn yn cyflwyno safle cymunedol dros dro ar ôl cau, lle bydd cydweithiwr lleol ar gael i gefnogi gyda sgyrsiau wyneb yn wyneb am eich anghenion bancio o ddydd i ddydd, eich cefnogi i sefydlu a defnyddio ein gwasanaethau digidol, darparu gwybodaeth a chyngor ar sut y gallwch ddefnyddio eich Swyddfa Bost leol ar gyfer trafodion arian parod, yn ogystal â darparu cyngor ar sut i amddiffyn eich hun rhag twyll a sgamiau.

Gallwch ddod o hyd i'ch safle cymunedol dros dro agosaf drwy fynd i **natwest.com/bankingnearme#community.**

Fel arall, i gael rhagor o fanylion am yr holl ffyrdd o wneud eich bancio personol neu fusnes gyda NatWest, sganiwch y cod QR priodol.

Bancio personol

Bancio Busnes

| Math o drafodiad | Cangen NatWest | Swyddfa Bost | ATM NatWest | Peiriant Adneuo Arian Parod a Sieciau | ATM brand banc arall | Ap Ar-lein neu Symudol | Bancio Ffôn | Bancio Fideo |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tynnu arian parod | ● | ● | ● | ● | ● | | | |
| Talu arian parod neu sieciau i mewn | ● | ● | | ● | | ● * Sieciau trwy Ap Symudol yn unig | | |
| Rhoi Newid | ● | ▲ | | | | | | |
| Ymholiadau balans | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | |
| Datganiad/ trafodion diweddar | ● | | ● | ● | | ● | ● | |
| Gwneud taliadau/ trosglwyddo arian/ talu biliau | ● | | | ● | | ● | ● | |
| Ymholiadau Bancio cyffredinol | ● | | | | | ● | ● | |
| Gwiriad Iechyd Ariannol | ● | | | | | | ■ | ■ |
| Cymorth ychwanegol trwy ein Harbenigwyr Cymorth Cwsmeriaid | | | | | | | ■ | ■ |

■ Cwsmeriaid Personol yn unig ▲ Cwsmeriaid Busnes yn unig ● Pob Cwsmer

# Geirfa termau

- Trafodiad cownter – gwasanaeth a gyflawnir gan gwsmer mewn cangen gyda chynrychiolydd o'r banc, megis adneuo arian parod a sieciau neu godi arian parod.
- Bancio bob dydd – cwsmeriaid yn defnyddio gwasanaethau yn y gangen megis adneuon arian parod, codi arian parod ac adneuon siec.
- Trafodiad ar-lein – trosglwyddiad, taliad neu ddiwygiad i daliad drwy'r ap symudol neu Fancio Ar-lein.
- Gweithgar yn ddigidol – cwsmeriaid sy'n defnyddio ein ap symudol neu Fancio Ar-lein..
- Cyfarwyddwyr Lleol – yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli nifer o ganghennau ar draws ardal ddaearyddol benodol.
- Get Cash – swyddogaeth ar ein ap symudol sy'n caniatáu i gwsmeriaid godi arian yn gyflym heb ddefnyddio cerdyn banc.
- Bankline – yn galluogi cwsmeriaid i reoli cyfrifon busnes lluosog, gweld yr holl drafodion mewn amser real a gwneud taliadau domestig a rhyngwladol diogel.
- Pellter – cyfrifir milltiredd ar y pellter gyrru byrraf o god post y gangen sy'n cau i god post y gangen agosaf a chodau post Swyddfa'r Post agosaf.
- Cwsmer personol rheolaidd – cwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau cangen o leiaf unwaith yr wythnos dros gyfnod o chwe mis.
- Cwsmer busnes rheolaidd – cwsmeriaid sy'n defnyddio'r gangen o leiaf ddeuddeg gwaith dros gyfnod o ddeuddeg mis.
- Slip talu i mewn â chod bar – slip credyd gyda chod bar sydd ar ffurf y gall peiriant ei darllen.
- Cwsmeriaid agored i niwed – Cwsmer sy'n agored i niwed yw rhywun sydd, oherwydd ei amgylchiadau personol, yn arbennig o agored i niwed, yn enwedig pan nad yw cwmni'n gweithredu gyda lefelau priodol o ofal.
- LINK - Rhwydwaith peiriannau arian mwyaf y DU, sy'n cysylltu bron pob un o beiriannau ATM y DU ac yn rhoi mynediad i gymunedau at arian parod trwy wasanaethau megis arian yn ôl wrth diliau manwerthwyr a Hybiau Bancio.

## Braille, print bras neu fformat sain?

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn fformat arall, ffoniwch ni ar **03457 888 444** (Relay UK **18001 03457 888 444**).

Gall galwadau gael eu recordio. Bancio Ar-lein ar gael i gwsmeriaid 11+ oed sydd â chyfrif NatWest. Mae Bancio Busnes Ar-lein a Bankline ar gael i gwsmeriaid sydd â chyfrif busnes NatWest. Gall ffioedd fod yn berthnasol.

**Ffeithiau'n gywir ar Awst 1, 2023.**

NatWest, a business name of National Westminster Bank Plc ("NatWest"), registered in England and Wales (Registered Number 929027).
Registered Office: 250 Bishopsgate, London EC2M 4AA. Authorised by the Prudential Regulation Authority and regulated by the Financial Conduct Authority and the Prudential Regulation Authority. NatWest is entered on the Financial Services Register (Registration Number 121878).

P0542670